# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CABINET

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 20 EBRILL 2017 AM 10.00 AM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | R Francis-Davies |
| J E C Harris | D H Hopkins | A S Lewis |
| C E Lloyd | J A Raynor | C Richards |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

190. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwr J A Raynor fudd personol yng Nghofnod 199 "Cynnig ar Gyfer Gosod y Canolfan Ddinesig am Dymor Byr".

191. **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2017.

192. **ADRODDIAD(AU) ARWEINYDD Y CYNGOR.**

**1) Mike Hawes – Ymddeoliad**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i Mike Hawes, Cyfarwyddwr Adnoddau a Swyddog Adran 151 am ei waith caled a'i ymroddiad i'r awdurdod dros y blynyddoedd. Nododd mai hwn oedd cyfarfod Cabinet olaf Mr Hawes, ac y byddai'n ymddeol ar ddiwedd mis Mai 2017.

Ar ran y Cabinet, dymunodd ymddeoliad hapus iddo.

**2) Y Cynghorydd Christine Richards – Yn Ymddiswyddo fel Aelod o'r Cabinet**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Cynghorydd Christine Richards, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc am ei gwaith

caled a’i hymroddiad i’r awdurdod dros y blynyddoedd. Nododd mai hwn oedd cyfarfod Cabinet olaf y Cynghorydd Richards fel Aelod o’r Cabinet yn dilyn ei phenderfyniad i ymddiswyddo o wleidyddiaeth mainc flaen.

Nododd y byddai’n cael ei chofio am ei mantra, “We need to get joined up around kids”.

## 193. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 194. HAWL I HOLI CYNGHORWYR.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 195. PA MOR BAROD YW PLANT I DDECHRAU'R YSGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd H M Morris, o’r Panel Ymchwilio Craffu Pa mor Barod yw Plant i Ddechrau’r Ysgol, adroddiad a oedd yn cyflwyno canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion ymchwiliad y Panel i ba mor barod yw plant i ddechrau’r ysgol.

**PENDERFYNWYD:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad:

2) Y dylid rhoi'r dasg o ddarparu adroddiad i'r Cabinet i Aelod Cabinet perthnasol gydag ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion craffu a'r cam(au) gweithredu arfaethedig.

## 196. SEFYDLU CYFLEUSTERAU ADDYSGU ARBENIGOL AR GYFER DISGYBLION AG ANHWYLDERAU'R SBECTRWM AWTISTIG (ASA).

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg adroddiad am ganlyniad yr ymgynghoriad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiadau statudol am gynigion i sefydlu tri chyfleuster addysgu arbenigol (CAA) newydd mewn ysgolion o fis Ionawr 2018 yn Ysgol Gynradd Dynfant, Ysgol Gynradd Portmead ac Ysgol Gyfun Gellifedw.

**PENDERFYNWYD:**

Cyhoeddi'r hysbysiadau statudol i sefydlu tri chyfleuster addysgu arbenigol (CAA) mewn ysgolion o fis Ionawr 2018 yn Ysgol Gynradd Dyfnant, Ysgol Gynradd Portmead ac Ysgol Gyfun Gellifedw.

## 197. STRATEGAETH GOMISIYNU GWASANAETHAU CYMUNEDOL BAE'R GORLLEWIN AR GYFER CARTREFI GOFAL I BOBL HYN 2016-2025.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn adroddiad i gymeradwyo Strategaeth Gomisiynu Bae'r Gorllewin ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y strategaeth;

2) Cymeradwyo fersiwn ôl-ymgynghoriad Strategaeth Gomisiynu Bae'r Gorllewin ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn;

3) Cymeradwyo'r cynllun gweithredu ar gyfer Abertawe.

198. **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

199. **CYNNIG AR GYFER GOSOD Y GANOLFAN DDINESIG YN Y TYMOR BYR.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad adroddiad er mwyn ystyried cynnig i osod 3ydd llawr y Ganolfan Ddinesig am dymor byr.

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo'r argymhelliad fel y nodwyd yn yr adroddiad yn amodol ar ddiwygio argymhelliad rhif 3.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.33 am

**CADEIRYDD**